# Llais Llanilar

Tymor yr Hydref 2023 Autumn Term

Gwell gwneud ein gorau na bod yn orau

**Diolch yn fawr i bob dosbarth am fod yn ohebwyr Llais Llanilar.**

***Thank you to the classes for being reporters for Llais Llanilar.***

Croeso i flwyddyn gyffrous arall!

Mae'r hanner tymor yma wedi hedfan, ac yn y rhifyn yma o Lais Llanilar fe gewch chi flas o'r gweithgareddau ar lawr y dosbarth. Byddwn hefyd yn rhannu themau ein gwasanaethau wythnosol ac yn sôn am ein gwaith yng nghymuned yr ysgol.

Os hoffech chi gyfrannu at thema neu os oes gennych chi unrhyw syniadau neu sylwadau, rydym bob amser yn barod i wrando.

Cofiwch ddilyn **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanilar** ar ein tudalen newydd **Facebook** ac rydym yn parhau ar **X/Trydar @YsgolLlanilar**.

Hefyd, mae **gwefan** yr (llanilar.ceredigion.sch.uk) yn cael ei ddiweddaru yn gyson gyda'r newyddion mwyaf cyfredol.



*Welcome to another exciting new year!*

*This half term has flown by, and in this issue of Llais Llanilar you will get a taste of various activities from every class. We will share the themes of our weekly assemblies and share our work in the school community. If you would like to contribute to a theme or if you have any ideas or comments, we are always ready to listen.*

*Please remember to follow our new Facebook page* **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanilar and we continue to post on X/Twitter @YsgolLlanilar**.

Also, our school website (llanilar.ceredigion.sch.uk) is regularly updated.

# Dosbarth Gelert

Rydym wedi mwynhau hanner tymor prysur yn nosbarth Gelert. Buom yn dysgu am y corff ac am ein synhwyrau. Mae'r plant wedi mwynhau arbrofi ac ymchwilio a dysgu am sut mae'r corff yn gweithio.
Cawsom fore hyfryd yn yr Eglwys ar ddechrau mis Hydref a phawb yn canu yn ystod ein Gwasanaeth Diolchgarwch. Rydym wedi tacluso, chwynnu a phlannu yn ein gardd synhwyraidd hefyd.
Braf oedd croesawu Mrs Salisbury yn ôl i'r ysgol i lawnsio ei chyfres newydd o lyfrau i blant o'r enw 'Celt y Ci'. Daeth yr artist Elin Vaughan atom hefyd a helpu'r plant i greu posteri i gyd-fynd â'r llyfrau.







*We have enjoyed a busy half term in Dosbarth Gelert. We have learned about our bodies and our senses. The children have enjoyed experimenting and researching to learn about how the body works.*
*We had a lovely morning in the Church at the beginning of October with everyone singing in our Thanksgiving Service. We have tidied up, weeded and planted in our sensory garden too.*
*It was great to welcome Mrs Salisbury back to school to launch her new series of books for children called 'Celt y Ci'. The artist Elin Vaughan also came and helped the children to create posters to go with the books.*









# Lleisiau Ilar

Lleisiau Ilar yw pwyllgorau o blant ar draws yr ysgol. Mae gennym ni waith pwysig i'w wneud yn yr ysgol. Ein rôl ni yw i wrando ar beth mae plant yr ysgol yn dweud wrthym ni am yr ysgol, ein cymuned a'r byd. Rydym yn gweithio mewn pwyllgorau i wella pethau, i drefnu digwyddiadau ac i rannu barn yr ysgol. Dyma rannu ychydig o'n gwaith.

*Lleisiau Ilar are committees of children throughout the school. We have important work to do in the school. Our role is to listen to what the children tell us about the school, our community and the world. We work in committees to improve things, to organize events and to share the school's opinion. Here we have shared some examples of our work*

**Pencampwyr ein Planed—Eco Warriors**

Yn rôl ni yw i edrych ar ôl amgychedd yr ysgol a'r gymuned. Rydym wrthi yn creu bathodynau i bawb sydd yn aelod o Leisiau Ilar—rhai sydd wedi cael eu ail-gylchu ac yn well i'r amgylchedd. Rydym hefyd yn monitro defnydd o drydan bob amser cinio ac yn rhoi gwobr i'r dosbarth sydd yn gwastraffu llai o drydan.

Our role is to look after the environment of the school and the community. We are currently creating badges for everyone who is a member of Lleisiau Ilar — those that have been recycled and are better for the environment. We also monitor the use of electricity during our lunch times. The class that wastes less electricity has a certificate in the assembly.



Ffion, Ellah, Leila a Lily

**Llysgenhadon Gwych—Super Ambassadors**

Ein rôl ni yw i sicrhau bod pawb yn yr ysgol yn gwybod beth yw eu hawliau. Rydym yn rhannu hawl y mis ym mhob gwasanaeth. Rydym wedi cael cyfarfod gyda llysgenhadon Ceredigion i drefnu wythnos gwrth-fwlio ac wedi cyfarfod gyda Chomisiynydd Plant Cymru, Rocio Cifuentes. Rydym yn edrych ymlaen i fynd i fferm Bwlchwernen i glywed am sut gallwn ni ddatblygu ein ardd.

*Our role is to ensure that everyone in the school knows what their rights are. We share the right of the month in each service. We have had a meeting with Ceredigion ambassadors to organise an anti-bullying week and have met with Children's Commissioner for Wales, Rocio Cifuentes.*



*Rowan a Hamish*

**Llysgenhadon Efydd—Bronze Ambassadors**

Ein rôl ni yw annog pawb yn yr ysgol i fod yn iach yn gorfforol a meddyliol. Cawsom hyfforddiant gyda Ceredigion Actif i ddysgu sut i arwain sesiynau chwaraeon yn yr ysgol. Rydym wedi cynnal gwersi iFlwyddyn 3 a 4 ar yr iard amser cinio—roedd yn grêt. Rydym wedi gwneud cyflwyniad i'r llywodraethwyr i rannu ein gwaith gyda nhw. Rydym hefyd yn helpu Mrs Jones yn y gwasnaeth trwy ddysgu pawb i anadu'n ddwfn.



Rydym yn edrych ymlaen at ddysgu plant am iechyd a lles yn ystod y flwyddyn.

*Our role is to encourage everyone in the school to be physically and mentally healthy. We had training with Active Ceredigion to learn how to lead play sessions at school. We have held Year 3 and 4 lessons in the yard at lunchtime — it was great. We have made a presentation to the governors to share our work with them. We also help Mrs Jones in our assemblies by teaching everyone to breathe deeply. We are looking forward to teaching everyone how to look after their wellbeing this year.*

*Rhun, Harri ac Osian*

**Cyngor Ysgol / School Council**



Ein rôlni yn yr ysgol yw i drefnu diwrnodau i godi arain i elusennau gwahanol ac i wrando ar lais y plant.

Trefnon ni Parti Pinc Macmillan i godi arian i elusen pwysig. Codon ni £620 ac roedd y neuadd yn llawn dop! Joion ni trefnu'r diwrnod. Rhannon ni ein syniadau am y flwyddyn gyda'r W.I. ac roedd ganddyn nhw lawer o syniadau hefyd. Rydym yn edrych ymlaen i drefnu diwrnod pyjamas cyn hir.



Our role in the school is to organise days to raise funds for charities to and to listen to the voice of the children.

We organised a Macmillan Pink Party to raise money for an important charity. We raised £620 and the hall was packed! We shared our ideas about the year with the W.I. and they had a lot of ideas too. We are looking forward to organising a pyjamas day before long.



Efan, Bella a Elin

# Lleisiau llar

**<u>Cewri Cymreig—Welsh Giants</u>**

Ein rôl ni yw i sicrhau bod pawb yn yr ysgol yn falch o'u Cymreictod.

Rydym yn dewis idiom bob wythnos. Rydym yn creu poster ac yn rhannu hwn yn y gwasanaeth bob dydd Gwener. Mae plant yn cael llawer o bwyntiau llys os maent yn defnyddio'r idiomau. Mae hyn yn gwella ein hiaith ni!

Trefnodd Cewri Blwyddyn 5 ddiwrnod Shwmae Su'mae. Rydym yn edrych ymlaen i drefnu Diwrnod Miwsig Cymru.

*Our role is to ensure that everyone in the school is proud of their Welshness. We choose an idiom every week. We create a poster and share this in the assembly every Friday. Children get a lot of house points if they use the idioms because it improves our Welsh language!*

*Year 5 organised Shwmae Sumae day—it was a lot o fun!*

*Mati, Cati, Meilyr, Thomas-Sion ac Amy*




## Cymraeg gyda'r Cewri

**Dewch i ddysgu Cymraeg gyda'r Cewri Cymreig. Bob hanner tymor rydym yn mynd i roi patrymau Cymraeg yn Llair Llanilar.**

**Come and learn Welsh with the Cewri. Click on the link below for your first lesson.**

https://www.youtube.com/watch?v=BFBTmBUOJgM&list=PLzsc_52SRKxt9lvplV68vs8144aK83Yev&index=65

**Dewch i ymarfer eich Cymreag gyda ni!**






**Dewiniaid Digidol—Digital Wizards**

Ein rôl ni yw i helpu plant i ddysgu am TGCh a sut i gadw'n ddiogel arlein. Rydyn wedi helpu dosbarth Barti Ddu i logio mewn i Hwb a sut i wneud J2E. Rydym yn bwriadu cynnal Clwb Codio a dysgu Blwyddyn 4 a 5 sut i ddefnyddio MicroBit.



Hefyd rydym yn mynd i gynnal gwasanaeth arall eto ar ddiogelwch ar y we achos mae'n bwysig bod pawb yn cael eu atgoffa'n aml am hyn.

*Our role is to help children learn about ICT and how to stay safe online.*

*We've helped Dosbarth Barti Ddu to log into Hwb and how to do J2E. We plan to hold a Coding Club and teach Year 4 and 5 how to use MicroBit.*

*We are also going to hold yet another assembly on safety on the web because it is important that everyone is often reminded about this.*


# Dosbarth Barti Ddu

Yn ystod ein thema 'Beth sydd angen arnaf i gadw'n iach?' rydym wedi bod yn edrych ar rannau'r corff yn ogystal â rhai o'r organau sydd yn ein cyrff. Mae'r plant hefyd wedi mwynhau dysgu am fwydydd iach ac afiach wrth gadw'n corff yn iachus.


*During our theme 'What do I need to stay healthy?' we have been looking at the different parts of the body as well as some of the organs. The children have also enjoyed learning about healthy and unhealthy foods.*




Creu ein hwynebau allan o ddeunyddiau naturiol. *Creating our faces out of natural materials.*




Labelu'r wyneb ar HWB. *Labelling our faces on HWB.*









Aethom â Seren a Sbarc am dro i lawr y llwybr beicio a chreu fframiau natur. *We took Seren and Sparc for a walk down the cycle path and created nature frames.*

# Dosbarth Gwenllian

Croeso mawr i'r plant newydd ym mlwddyn 3 sydd wedi ymuno â ni yn nosbarth Gwenllian mis Medi. Braf gweld gwynebau hapus yn dod i fewn i'r dosbarth pob bore!

Ein thema ni eleni yw 'Ffit llar' a'r pwysigrwydd o gadw'n iach. Fel rhan o'n thema, aethon ni i'r Prifysgol i'r adran chwaraeon i gasglu data am ymarfer corff.









Buom ni hefyd yn gweld Dyfan yn y Llyfrgell Genedlaethol. Clywon ni'r hanes am ein hanthem Genedlaethol. Braf oedd cael clywed y recordiad cyntaf o'r gân byd-enwog. Daeth y plant nôl o'r ymweliad yn awyddus i greu llinell amser o'r hanes!

Dewch i wrando ar ambell un dosbarth Gwenllian yn darllen ein cerdd 'Misoedd y Flwyddyn'. Ysgrifennwyd y gerdd i ddathlu T.Llew Jones.

Da iawn i bawb a fu'n rhedeg yn ein traws-gwlad mis yma. Roedd pawb wedi gwneud eu gorau glas. Diolch am Mr Locksdale am roi ben-thyg y cae i ni!





Rydym wedi bod yn ffodus iawn i groesawu ymwelwyr i'r ysgol neu dros Teams. Diolch i Catrin o 'Dŵr Cymru' am siarad gyda ni am sut maen nhw'n cadw ein dŵr ni yn lân. A diolch hefyd i PC Goffin am ddod i siarad gyda ni am bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar noson Calan Gaeaf a Thân Gwyllt.





# Dosbarth Gwenllian

A big welcome to our new year 3. It's lovely to see such smiley faces coming into class every day!

Our theme this term is 'Ffit Ilar' and the importance of keeping fit. As a part of our theme, we went to the sports centre at the University to collect sports data.









We also paid a visit to the National Library to see Dyfan. Dyfan taught us about the National Anthem of Wales. It was lovely to hear the first official recording of the World-Famous song. The children came back eager to create a timeline of the history.

Scan the QR code and listen to some of Dosbarth Gwenllian reading our poem 'Misoedd y Flwyddyn'. We wrote it in celebration of the work of T.Llew Jones.

Well done to everyone who took part in our trawsgwlad this month. Everyone did their very best. Thank you Mr Locksdale for letting us use the field!





We have been fortunate to welcome visitors to school or over Teams. Thank you to Catrin from 'Dŵr Cymru' for talking to the children about how they keep our water clean. Another thank you goes to PC Goffin for coming to talk to the children about the importance of safety on Halloween and Bonfire night.





# Dosbarth Llywelyn


Enw ein thema Tymor yma yw FfitIlar  Ein cwestiwn ymholi yw 'Beth sydd yn gwneud fi yn fi? ' Cawsom ddechreuad cyffrous i'r thema wrth i Rhodri Jones, Chwaraewr y Dreigiau osod her i ni greu fideo ffitrwydd ar gyfer tîm rygbi Cymru.  Dilynwyd hynny gydag ymweliad i'r adran chwaraeon Prifysgol Aberystwyth lle cawsom gyfle i arbrofi gyda gwahanol dechnoleg a dulliau i fesur pa mor gyflym roedd pawb yn gallu rhedeg, pa mor bell ac uchel roedd pawb yn gallu neidio.  Ymlaen â ni wedyn i ddysgu am y corff a sut i gadw'n iach.  Dyma luniau o weithgareddau wythnosau diwethaf.



Plant yn ymweld â'r Brifysgol - Mwynhau dysgu am y corff a sut i wella perfformiadau rhedeg a neidio.

Cod QR - Gwaith ymarferol yn dangos sut mae gwaed yn teithio o gwmpas y corff diolch i'r galon.

Plant yn codio ar Microbit er mwyn creu rhifydd ar gyfer ein gwaith ymarfer corff.





Trip i'r Llyfrgell er mwyn dysgu am hanes 'Mae Hen Wlad fy Nhadau.



Rhodri Jones o'r Dreigiau yn gosod her o greu fideo ffitrwydd.

Cod QR - Cafodd y plant cyfle i gyflwyno ei gwaith yn greadigol - Dyma enghraifft o 'Stop Mo-tion' un grŵp i gyfeiliant gytgan can arbennig am fwyta'n iach.

# Dosbarth Llywelyn

Our theme this term is called Fit Ilar. Our question of inquiry is ‘What makes me me?’We had an exciting start to the theme when Rhodri Jones, from the Dragons Rugby Club,  challenged us to create a fitness video for the Welsh rugby team. This was followed by a visit to the sports department at Aberystwyth University where we had the opportunity to experiment with different technology and methods to measure how fast everyone could run, how far and high everyone could jump. We then went on to learn about the body and how to keep healthy. Here are pictures of last weeks activities.



Children visiting the University - They enjoyed learning about the body and how to improve their running and jumping performances.


QR Code - Practical work showing how blood travels around the body thanks to the heart.



Rhodri Jones from the Dragons sets us a challenge! Create a fitness video!

Children coding on a Microbit to create a counter for our exercise work.





A trip to the Library to learn about the history of ‘Mae Hen Wlad fy Nhadau.

QR Code - The children had the opportunity to present their work creatively - This is an example of one group's 'Stop Motion' to the accompaniment of the chorus of a special song about healthy eating.

# Dosbarth Glyndŵr

Dyma ddechrau arbennig i flwyddyn 6 i'r tymor. Ein prif thema y tymor hwn yw *Ein Corff* a rydyn ni wedi bod yn brysur yn dysgu am ein organau a rôl rhain yn ein corff. Mae'r disgyblion wedi bod yn brysur yn ysgrifennu portread yn disgrifio'u hun ac hefyd yn dysgu sut i arlunio'r wyneb.





Cafodd Blwyddyn 5 a 6 diwrnod gwerth chweil yn Ffair Iaith Aberystwyth ar ddiwedd mis Medi. Cafwyd profiadau gyda'r comediwr Mel Owen,  Ioga, disgo tawel, cyfle i greu podlediad a gweithdy rapio gyda Mr Phormula- gwych!

Cafodd Dosbarth Glyndŵr gyfle arbennig i greu GIF gyda chwmni Mwydro ar ddechrau fis Hydref. Roedd hi'n grêt i weld y disgyblion yn cyd-weithio ar wefan Kleki i greu darluniau o'r ardal yn Llanilar. Cadwch olwg allan amdanyn nhw a chofiwch i'w defnyddio ar wefannau cymdeithasol i roi Llanilar ar y map!

Dathlodd Dosbarth Glyndŵr ddiwrnod T Llew Jones ar ddechrau fis Hydref. Mwynhaodd y disgyblion i glywed cerdd Dawns y Dail cyn mynd ati i greu cerdd Yr Hydref eu hunain. Sganiwch y côd QR i glywed ambell gerdd gan rai o'r disgyblion.




Derbyniodd Dosbarth Glyndŵr her gan Ddosbarth Gwenllian i greu adroddiad ffeithiol am organau'r corff i'w helpu i ddysgu am rôl y gwahanol rhannau yn y corff. Ar ôl cyflawni'r her, aeth y dosbarth i rannu ei gwaith. Roedd hi'n hyfryd i weld Blwyddyn 6 yn sgwrsio a helpu disgyblion iau i ddeall rôl yr organau.







# Dosbarth Glyndŵr

A fantastic start to Year 6 for our new group of pupils. Our main theme is Our body for the term and we have been busy learning about our organs. The pupils have also been busy writing portraits to describe themselves and learning how to draw faces to create some self-portraits.





Years 5 and 6 had a great day at the Aberystwyth Ffair Iaith at the end of September. They had experiences with Mel Owen, a comedian, a yoga session, a quiet disco, a chance to record a podcast, and a rapping session with Mr Phormula– fantastic!

Dosbarth Glyndŵr had an opportunity to create a GIF. It was great to see the pupils working together on the Kleki website to create images of the local area. Keep an eye out for them and remember to use them on social media to put Llanilar on the map!

Glyndŵr class celebrated T Llew Jones day at the beginning of October. The pupils enjoyed hearing the poem, Dawns y Dail. The pupils then wrote their own poems about Autumn. Scan the QR code to hear some of our poems.




Dosbarth Glyndŵr received a challenge to create an educational report about our organs for Gwenllian class. After completing the task, Glyndŵr class went to share their work and help them to understand. It was fantastic to see them teaching younger children enthusiastically.








**Joio Darllen!** **We ❤ reading!**

Rydym yn ffodus iawn bod aelodau o  gymuned Llanilar yn dod i ddarllen gyda ni yn wythnosol. Rydym hefyd wrth ein boddau yn cal sgwrs gyda nhw a rhoi'r byd yn ei le!

*We're very lucky that members of the local community come in every week to read with us. We also love to have a chat with them!*







**Ymweliad oddi wrth y Maer / A visit from the Mayor**

Diolch yn fawr i Faer Aberystwyth, y Cynghorydd Kerry  Ferguson, am ddod i sgwrsio gyda ni am ei gwaith. Diolch hefyd am y llyfrau arbennig oddi wrth ffrindiau ym Mhatagonia.

*Thank you to Aberystwyth Mayor, the Councillor Kerry Ferguson for coming in to discuss her work with Dosbarth Llywelyn and Glyndwr. Thank you also for  the books from our friends in Patagonia.*

# Llongyfarchiadau!

# Congratulations!



I Efan Betts am ennill tlws chwaraewr gorau yn ei dîm rygbi.

To Efan Betts for winning best player for his rugby team.



I Eben Carr ar ennill rownd yr ysgol yng nghystadleuaeth Cogurdd. Roedd ei salad yn werth ei weld! Diolch i'n cogyddes Mrs Helen Bound am fod yn feirniad.

To Eben Carr for winning the school round of the Cogurdd competition. His salad looked delicious. Thank you to our cook, Mrs Helen Bound, for judging.

# Rhannu Negeseuon Pwysig

**Diwrnod Shw'mae Sumae**

Fe wanethom ddathlu Diwrnod Shw'mae, Sumae yn yr ysgol trwy llu o weithgareddau difyr. Rhannodd y Cewri Cymreig neges bwysig i ddechrau bob sgwrs yn y Gymraeg ac anfonodd Dosbarth Gelert Shwmae i bawb ar y cyfryngau cymdeithasol!

We celebrated Shw'mae, Sumae Day with lots of fun a ctivities. The Cewri Cymreig—Welsh Giants—shared the important message to start every conversation in Welsh. Dosbarth Gelert shouted 'Shwmae' to everyone on social media!




## Mis Hanes Pobl Duon— Black History Month

Rydym wedi bod yn dathlu mis hanes pobl duon trwy ddysgu am bobl ysbrydoledig fel Mrs Betty Campbell, Nelson Mandela, Rosa Parks a Shirley Bassey. Cawson hefyd wasanaeth arbennig i Ddangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth.


*We have been celebrating black history month by learning about inspirational people like Mrs Betty Campbell, Nelson Mandela, Rosa Parks and Shirley Bassey. We also has a fantastic assembly to Show Racism the Red Card.*

**Gwasanaethau Dosbarth—Class Assemblies**

Mae'r dosbarthiadau wedi bod yn brysur yn cynnal gwasnaethau ysgol gyfan gan rannu hanesion enwau eu dosbarth—Llywelyn ein Llyw Olaf, Owain Glyndwr, Gelert, Gwenllian a Barti Ddu.

Cawsom hefyd wasanaeth Diolchgarwch arbennig yn Eglwys St Ilar ac fe gasglom ni fwyd i fanc bwyd Aberystwyth. Diolch i bawb am eu cyfraniad hael.

*The classes have been busy holding whole school services sharing the history of the names of their classes. We also had a special Thanksgiving service at St Ilar's Church and we collected food for the Aberystwyth food bank. Thank you to everyone for their generous contribution.*




# Sharing Important messages

# Cyswllt gyda'r Gymuned

## Parti Pinc Macmillan

Diolch yn fawr I bob un ddaeth I gefnogi ein Parti Pinc ac I godi arian I elusen pwysig, sef Macmillan. Roedd y neuadd yn orlawn a chawsom wledd o gacennau! Roedd y plant wedi diddanu trwy ganu caneuon ac roedd bwrlwm yn llenwi'r neuadd. Casglwyd £620—diolch yn fawr I chi am eich gefnogaeth.

A big thank you to everyone who came to support our Parti Pinc and to raise money for an important charity, Macmillan. The hall was packed and we had a feast of cakes! The children were entertained by singing songs and a buzz filled the hall. £620 was collected — thank you very much for your support.

# Links with the Community

## Neges oddi wrth Lleisiau Ilar—A message from Lleisiau Ilar

### PARCIO—PARKING

Rydym wedi sylwi bod llawer o bobl yn parcio ar y llinellau melyn tu allan i'r ysgol ac ar y porfa. Hoffwn atgoffa PAWB ei fod yn beryglus i barcio ar y llinellau melyn.

**NEGES BWYSIG: NID OES STAFF YN GORUCHWYLIO'R PLANT CYN I'R CLWB BRECWAST DDECHRAU felly a wnewch chi sicrahu eu bod yn cael eu goruchwilio. Mae aelodau o staff yn gyrru mewn i'r ysgol yn ystod yr amseroedd yma.**

***We have noticed that many people park on the yellow lines outside the school and on the grass. We would like to remind EVERYONE that it is dangerous to park on the yellow lines.***

***IMPORTANT MESSAGE: THE CHILDREN ARE NOT SUPERVISED BY STAFF BEFORE THE BREAKFAST CLUB STARTS so please make sure they are supervised. Members of staff drive into the school during these times.***

**Diolch yn fawr i bawb am eich cefnogaeth.**

**A big thank you to everyone for your support.**